# ATODLEN 2

## [F1 Y Weithdrefn Apelio]

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Atod. 2 wedi ei amnewid (22.4.2009) gan Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2009 (O.S. 2009/823), rhlau. 1(1), **2(3)**

### Apelau a wneir yn unol ag adran 95 o Ddeddf 1998

**2.**—(1) Yn y paragraff hwn ystyr "apêl" yw apêl a wneir o dan y trefniadau a bennir yn rheoliad 3(d).

(2) Pan fydd unrhyw benderfyniad a grybwyllir yn adran 95(2) wedi'i wneud gan yr [F1 awdurdod addysg lleol] neu ar ei ran, rhaid i'r awdurdod hysbysu corff llyworaethu'r ysgol yn ysgrifenedig am —

(a) y penderfyniad hwnnw; a

(b) hawl y corff llywodraethu i apelio yn erbyn y penderfyniad yn unol ag is-baragraff (3).

(3) Rhaid i unrhyw apêl gan y corff llywodraethu yn erbyn unrhyw benderfyniad cael ei gwneud dim hwyrach na'r pymthegfed diwrnod ysgol ar ôl y diwrnod pan hysbysir ef o dan is-baragraff (2).

(4) Rhaid i apêl fod drwy hysbysiad ysgrifenedig sy'n nodi'r sail dros ei gwneud.

(5) Rhaid i'r panel apêl gyfarfod i ystyried apêl ar unrhyw ddyddiad y bydd yr awdurdod addysg lleol yn ei benderfynu ond rhaid i'r dyddiad a benderfynir beidio â bod ar ôl y pymthegfed diwrnod ysgol ar ôl y diwrnod pan fydd yr awdurdod hwnnw yn derbyn yr hysbysiad y cyfeirir ato o dan hysbysiad is-baragraff (4).

(6) Ar apêl rhaid i'r panel ganiatáu —

(a) i'r awdurdod addysg lleol a'r corff llywodraethu wneud sylwadau ysgrifenedig;

(b) i un o swyddogion yr awdurdod a enwebir gan yr awdurdod, a llywodraethwr a enwebir gan y corff llywodraethu, ymddangos a gwneud sylwadau llafar; ac

(c) i'r corff llywodraethu gael ei gynrychioli.

(7) Rhaid i apelau gael eu gwrando'n breifat ac eithrio pan fydd yr awdurdod addysg lleol yn cyfarwyddo fel arall; ond —

(a) os yw'r panel yn cyfarwyddo hynny, caiff un aelod o'r awdurdod addysg lleol fod yn bresennol, fel sylwedydd, mewn unrhyw wrandawiad o apêl gan banel apêl; a

(b) caiff un aelod o'r Cyngor Tribiwnlysoedd fod yn bresennol, fel sylwedydd, mewn unrhyw gyfarfod o banel apêl sy'n ystyried apêl.

(8) Caniateir cyfuno dwy neu ragor o apelau ac ymdrin â hwy yn yr un achos os yw'r panel apêl yn ystyried bod hynny'n hwylus oherwydd mai'r un rhai yw'r materion a godir gan yr apelau neu oherwydd eu bod yn gysylltiedig.

(9) Os bydd aelodau panel apêl yn anghytuno â'i gilydd, bydd yr apêl sy'n cael ei hystyried i'w phenderfynu gan fwyafrif syml o'r pleidleisiau a fwriwyd ac, os bydd nifer y pleidleisiau yn gyfartal, bydd gan gadeirydd y panel ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

(10) Rhaid i'r panel apêl roi gwybod am ei benderfyniad a'r sail dros ei wneud—

(a) yn ysgrifenedig i'r [F1 awdurdod addysg lleol] a'r corff llywodraethu; a

(b) erbyn diwedd yr ail ddiwrnod ysgol ar ôl i wrandawiad yr apêl ddod i ben.

(11) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) i (10), mae pob mater sy'n ymwneud â'r weithdrefn apelio i'w benderfynu gan yr **[**[F1]awdurdod addysg lleol**]** .

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Atod. 2 wedi eu hamnewid (15.7.2009) gan Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/1500), rhlau. 1(1), **2(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 31.5.2005, gweler **rhl. 1(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– Sch. 2 para. 2(6)(b) words omitted by S.I. 2023/420 reg. 3(5)(c)